



Penderfyniadau lleol; effeithiau rhanbarthol
Llwyddiannau prosiectau Gogledd Cymru

CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN
GOGLEDD CYMRU

| Cynnwys

- 03 Croeso
- 04 Prosiectau Aml-Awdurdod
- 06 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- 08 Cyngor Sir Ddinbych
- 10 Cyngor Sir y Fflint
- 12 Cyngor Gwynedd
- 14 Cyngor Sir Ynys Môn
- 16 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- 18 Prosiectau Aml-Awdurdod
- 20 Llwyddiannau Prosiectau a Buddion Rhanbarthol mewn rhif

ffyniantgyffredingogledd.cymru

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU  Funded by UK Government

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru yn cael ei hariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig (UKSPF).
Cyngor Gwynedd yw corff arweiniol Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru ar ran awdurdodau lleol y rhanbarth.

| Croeso

Ers 2022 bu awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn cydweithio gyda'i gilydd, a phartneriaid eraill yn yr ardal, i wneud y gorau ar y cyfleoedd a gynigir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig (UKSPF).

Gweithredwyd mewn ffordd ystyriol ac arloesol yng Ngogledd Cymru i fanteisio i'r eithaf ar hyblygrwydd y gronfa.

Rhoddwyd y gallu i bob un o'r chwech awdurdod wneud penderfyniadau ariannu oedd yn addas i'w gofynion unigol hwy, gydag ymdrechion pawb hefyd yn gydnaws â'i gilydd er mwyn hwyluso cydweithrediad a chael y dylanwad gorau oll o fewn y rhanbarth.

Clustnodwyd buddsoddiad sylweddol o fwy na £123 miliwn ar draws tair blaenoriaeth y Gronfa, sef:

- **Cymunedau a Lle (£58.98 miliwn):**
i gynyddu bywiogrwydd ac apêl ardaloedd lleol
- **Cefnogi Busnesau Lleol (£24.20 miliwn):**
i feithrin twf, blaengaredd a chynaliadwyedd mentrau lleol
- **Pobl a Sgiliau (£36.68 miliwn):**
i roi i drigolion y sgiliau a'r cyfleoedd angenrheidiol i greu dyfodol ffyniannus.


Cefnogwyd 169 prosiect yn uniongyrchol ac, yn eu tro, rhoddodd y rhain arian i fwy na 1,870 o sefydliadau ym mhob rhan o siroedd Wrecsam, Fflint, Dinbych, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

Roedd 17 o'r prosiectau yn gweithredu ar draws mwy nag un awdurdod lleol, gan adlewyrchu eu hanghenion a chyfleoedd cyffredin. Hefyd, cafwyd prosiectau'n gweithredu yn yr un math o ardal neu o fewn meysydd gwaith cysylltiedig er mwyn defnyddio'r arian yn y ffordd orau bosibl.

Yn y tudalennau dilynol, cewch hanes rhai o'r prosiectau a gefnogwyd, a'r gwahaniaeth clir a wnaethant i unigolion, cymunedau a busnesau ym mhob rhan o Gogledd Cymru. Enghreifftiau yn unig ydynt o'r 15,008 o bobl, 4,135 busnes a 1,838 grŵp lleol a gefnogwyd.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd eisoes yn dangos arwyddion o lwyddiant a newid ystyrion ar draws Gogledd Cymru. Rydym eisoes yn gweld manteision cael adnoddau a seilwaith cymunedol gwell, busnesau'n tyfu, gwell effeithlonrwydd a llwyddo i helpu pobl tuag at waith cyflogedig.

Yng Ngogledd Cymru, diolch i'r hyblygrwydd sydd wrth galon dulliau gweithredu'r Gronfa SPF, gwelwn sut drwy rymuso ardaloedd lleol, gellir mynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol yn effeithlon ac mewn modd effeithiol.



CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN
GOGLEDD CYMRU

Prosiectau Aml-Awdurdod

Cefnogwyd 17 cynllun yn rhedeg ar draws sawl awdurdod lleol

Vicky'n cael swydd ddefnyddiol diolch i Synnwyr Gweithio

Mae Synnwyr Gweithio, rhaglen o eiddo'r ganolfan Centre of Sign-Sight-Sound (COS), wedi gwella rhagolygon gwaith pobl yn siroedd Conwy, Dinbych a Fflint sydd ag anableddau, heriau iechyd neu gollod synhwyrol.

Arweiniodd cefnogaeth drwy Cronfa Ffyniant Gyffredin (UKSPF) at adeiladu hyder, datblygu sgiliau galwedigaethol, gwella sgiliau llenwi ffurflenni cais, gwella cyfathrebu a chynyddu gwytnwch emosiynol.

Yn Sir Conwy, roedd Quinn yn dioddef o iselder, wedi profi llawer o sefyllfaoedd negyddol yn ystod ei phlentyndod ac wedi arfer cuddio'r ffaith ei bod yn awtistig.

Ers ymuno â'r rhaglen, mae wedi gwella'n sylweddol ei sgiliau ymwneud â phobl a dod yn berson mwy hyderus. Mae nawr yn gwirfoddoli yng Ngrŵp Cymunedol COS.

Yn Sir Ddinbych, rhoddwyd hwb i hyder a lles meddyliol un person a gymrodd ran drwy i'r person hwnnw wneud gwaith gwirfoddol, cwrdd ag eraill a mynychu cyrsiau.

Yn Sir y Fflint, cafodd Vicky Roberts ei swydd ddefnyddiol gan wella ei lles meddyliol ar ôl llwyddo i oresgyn rhwystrau cysylltiedig â'i hanableddau gyda chymorth allweddol Synnwyr Gweithio.

Meddai: "Cyn ymuno â'r cynllun, roeddwn yn ansicr lle i ddechrau chwilio am waith ond, gyda chefnogaeth Working Sense, llwyddais i gyrraedd fy mhotensial llawn mewn swydd rwy'n ei charu."



Cwmnïau yn canmol llwyddiant cynllun

Mae dymuniad cwmni o Ynys Môn i ddatblygu math newydd o sebon ar gyfer y farchnad ddiwydiannol yn enghraifft ardderchog o llwyddiant y Cynllun Talebau a Sgiliau Arloesedd (Skills and Innovation Voucher Scheme - SIV) yng Ngogledd Cymru.

Yn cynnig cyfle i fusnesau yn siroedd Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn gydweithio â Phrifysgol Bangor, bu IONA Minerals yn un o fwy na 40 o fusnesau a fanteisiodd ar y cynllun.

Cefnogwyd IONA Minerals yn eu hymchwil i ddatblygu sebon a wnaed o ddeunyddiau naturiol gyda'r cynhwysion cywir i fedru glanhau olew, saim a graean.

Yn cael ei ariannu gan y tri awdurdod lleol drwy Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), roedd y cynllun yn rhoi cymorth midi (£5,000) neu macsi (£10,000) i alluogi mynediad at arbenigedd academiaidd a/neu adnoddau'r brifysgol, neu dalebau Talent (£5,000) i dalu cost lleoli person graddedig o fewn sefydliad.

Meddai Selwyn Owen, rheolwr gyfarwyddwr IONA Minerals: "Yn sicr, fe ddaru ni gyrraedd ein nod yn llawer iawn cynt trwy gydweithio â Chanolfan Biogyfansoddion y Brifysgol."



Symud i'r cyfeiriad iawn

Cymerwyd camau allweddol i ddangos sut y gall sefydlu cysylltiadau lleol fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael ag anactifedd ac anghyfartaledd gweithgareddau corfforol ar draws Gogledd Cymru.

Bu Gogledd Cymru Actif (Actif) yn arwain rhaglen beilot mewn naw lleoliad yn siroedd Dinbych, Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn gyda chefnogaeth yr awdurdodau drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF).

Dangosodd arolwg cenedlaethol yng Nghymru fod hyd at 40 y cant o oedolion yng Ngogledd Cymru yn treulio llai na 30 munud bob wythnos yn gwneud gweithgareddau egnïol.

Roedd Actif yn awyddus i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon, trwy weithredu mewn ffordd seiliedig ar le, bu'r prosiect yn cydweithio gyda phobl a mudiadau lleol mewn ardaloedd penodol i geisio deall y ffactorau cymhleth sy'n penderfynu a yw pobl yn actif neu beidio.

Wedi mapio'r asedau, sefydlu perthynas â gwahanol gymunedau a rhoi grwpiau gweithredu lleol ar waith, mae Actif o'r farn fod seiliau cadarn wedi eu gosod ac maent yn hyderus y gall pethau newid er gwell drwy weithredu fel hyn.

Ymhlith llwyddiannau'r prosiect mae sefydlu 50 o raglenni yn cael eu rhedeg gan y gymuned, creu mwy na 140 o gyfleoedd gwirfoddoli a chynnydd amlwg ym mharodrwydd pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol.

Meddai cyfarwyddwr rhanbarthol Gogledd Cymru Actif, Manon Rees-O'Brien: "Edrychwn ymlaen yn gyffrous at ledaenu ein model newydd ar gyfer comisiynu gweithgareddau seiliedig ar le i bob rhan o Gogledd Cymru."



Gwylwch: Cadw'n ffit a chyfrif

Bu Seren Ffestiniog yn trefnu cyrsiau sgiliau cyfrif ar gyfer staff a dysgwyr mewn cydweithrediad â phrosiect Lluosi, Grŵp Llandrillo Menai. Yn y cwrs 'Rhifau Ffiftrwydd: loga' helpwyd unigolion i ddatblygu sgiliau rhifedd hanfodol wrth ddysgu mewn ffyrdd ymarferol, heb orfod ddefnyddio mathemateg ffurfiol.



I wyllo'r fideo, sganiwch y cod QR neu ewch i: tinyurl.com/3dvx6k3u

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cefnogwyd 35 cynllun gyda £23,654,838 o gyllid wedi'i ymrwmo

Delyth a Chlwb Phoenix yn rhwydo'r bêl unwaith eto

Cyfeillgarwch, ffitrwydd a chael llawer iawn o hwyl – dyna a ddenodd dwsin o ferched i ddychwelyd i chwarae pêl-rwyd, diolch i gefnogaeth allweddol.

Fe arweiniodd cyfarfod hap a damwain rhwng Delyth Roberts a Donna Goodrich, Swyddog Prosiect Llesiant Cymunedol Conwy, at ffurfio Clwb Pêl-Rwyd Phoenix ym Mhenmaenmawr.

Mewn dosbarth crosio clywodd Donna am awydd Delyth, 64 oed, i weld ailsefydlu tîm pêl-rwyd yn y pentref. Yn dilyn y sgwrs cafodd y Tîm Llesiant Cymunedol hyd i offer a lle chwarae addas.

Yn cael ei ariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), mater o amser yn unig ydoedd cyn bod 12 o ferched unwaith eto'n chwarae'r gêm y maent yn ei charu gymaint.

Meddai Delyth: "Wedi bwllch o bum mlynedd ymaith o'r gylchdaith bêl-rwyd, rwy'n sylweddoli bellach gymaint yr oeddwn yn methu'r cyfle i chwarae."

"Gallaf ddweud heb air o gelwydd mai pleser pur yw chwarae pêl rwyd unwaith eto ac edrychaf ymlaen yn eiddgar at ein sesiynau bob nos Lun."

Mae Tîm Pêl-Rwyd Phoenix yn un o 14 grŵp neu weithgaredd hunan gynhaliol a gefnogwyd gan Hwb Llesiant Cymunedol Conwy.



Cam cyntaf allweddol Siobhan

"Dyma fy ngham cyntaf i ddilyn gyrfa yn y maes gofal plant – un na allwn fod wedi ei gymryd ar fy mhen fy hun."

Dyna eiriau Siobhan Brighton wrth edrych yn ôl ar ei chwrs 16 wythnos gofal plant fel rhan o'r rhaglen Gofal Plant ar Waith sy'n cael ei hariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF).

Dan arweiniad National Day Nurseries Association (NDNA) Cymru, bu'r cynllun yn cefnogi saith o gynorthwywyr meithrinfa dan hyfforddiant i ddilyn cwrs hyfforddi pedair wythnos ac yna lleoliad gwaith am 12 wythnos.

Roedd lleoliad gwaith Siobhan ym meithrinfa Springfields, Ashbourne Bae Colwyn, lle cafodd gynnig swydd llawn amser.

Meddai Siobhan, sy'n 20 oed: "Gallaf argymhell y prosiect hwn i bawb."

Dywedodd llefarydd ar ran y feithrinfa, sydd wedi cyflogi dau berson trwy'r cynllun hwn: "Roedd y prosiect NDNA Cymru yn wych, a ninnau mor falch o'r cyfle i fod yn rhan ohono."



Cronfa Allweddol Busnesau yn creu Sblash ym Mhenmaenmawr

Mae'r dyfodol yn ddisglair i gwmni twristiaeth profiadol ym Mhenmaenmawr wedi cynnydd trawiadol yn nifer eu hymwelwyr.

Mae Graiglwyd Spring yn chwilio am gyfleoedd newydd a chynyddu eu gweithlu ar ôl i'r cymorth a gawsant o Gronfa Allweddol Cefnogi Busnes Lleol brofi'n gatalydd i ddatblygiad Parc Dŵr Sblash.

Sefydlwyd Graiglwyd Springs yn 1996, gan gynnig bythynnod gwyliau a lle pysgota am frithyll. Yn awr mae'r busnes wedi ychwanegu parc dŵr *inflatable* i'r atyniad fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Yn 2024 denwyd mwy na 5,000 o ymwelwyr o gymharu â 700 yn y 12 mis blaenorol, gan greu wyth swydd dymhorol ac un swydd llawn amser.

Defnyddiwyd y Gronfa Allweddol Cefnogi Busnes Lleol hefyd i gefnogi hyfforddiant gan y Gymdeithas Frenhinol Achub Bywydau, i ennill tystysgrifau cymorth cyntaf ac i sicrhau achrediad Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth er mwyn denu rhagor o ymweliadau ysgolion.

Llwyddwyd i gefnogi 82 o Fusnesau Bach a Chanolig gyda grant datblygu busnes a roddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF).



Gwylwch: Taro'r nodau cywir

Gydag arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cefnogi sesiynau Canu a Gwenu ym mhentref glan môr Llandrillo yn Rhos lle gall pobl fwynhau cwmni eraill a gwneud ffrindiau oes wrth gydganu gyda phobl o'r un anian.



I wyllo'r fideo, sganiwch y cod QR neu ewch i: tinyurl.com/mwexa2j6



conwy.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych

Cefnogwyd 48 prosiect gyda £24,741,017 o gyllid wedi'i ymrwymo

Rhaglen allweddol yn creu dyfodol gwell

Mae criw 'Sir Ddinbych yn Gweithio' wedi llwyddo'n rhagorol i gefnogi unigolion ar eu taith tuag at sefydlogrwydd, gwaith a dyfodol gwell.

Yn cael ei ariannu gan Gyngor Sir Ddinbych drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF), bu'r cynllun yn darparu cyrsiau hyfforddi, lleoliadau gwirfoddoli a mentora i helpu'r siawns o gael gwaith cyflogedig.

Yn gweithio gyda'r Tim Digartrefedd, elusen digartrefedd The Wallich a Chyfle Cymru, mae 'Sir Ddinbych yn Gweithio' yn rhoi cefnogaeth aml-ddisgyblaethol gyda'r ffocws ar lesiant a datblygiad personol.

Un o'r 2,889 o unigolion a helpwyd gan raglen Cyngor Sir Ddinbych oedd Mark, a oedd wedi wynebu ysgariad anodd, colli ei swydd a bod yn ddigartref.

Ar ôl gwirfoddoli gyda'r Tim Digartrefedd, cwblhaodd Marc gwrs Meddylfryd Sythweledol (Intuitive Thinking) i atgyfnerthu ei iechyd meddwl, ynghyd â chwrs cymorth cyntaf i helpu ei siawns o gael gwaith cyflogedig.

Gyda chymorth mentor cyflogaeth mae hefyd yn chwilio am gymorth ariannol i ddilyn cwrs ynni adnewyddadwy yn y gobaith o ddatblygu gyrfa hirdymor yn y sector hwnnw.



Cymorth allweddol i gefnogi twf Llanbenwch

Ehangu'r ddarpariaeth i ymwelwyr, gwasanaethu rhagor o gwsmeriaid yn gyflymach a chynyddu nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi – dyna'r gobeithion i fusnes sy'n tyfu o Sir Ddinbych.

Maes carafanau teuluol ar gyrion tref Rhuthun, a ail agorodd yn 2019, yw Llanbenwch. Derbyniodd gymorth allweddol drwy Gronfa Allweddol Sir Ddinbych i Gefnogi Busnesau Lleol, cronfa sy'n cael ei hariannu drwy Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF)

Yn un o 117 busnes yn Sir Ddinbych a dderbyniodd gyfran o'r £1,316,927 o grantiau a ddosbarthwyd, defnyddiodd Sara Evans, perchennog Llanbenwch £19,408 i greu cegin well a newydd yng nghaffi'r parc. Bydd yno hefyd ragor o le ar gyfer digwyddiadau tymhorol a gweithdai.

Llwyddodd y busnes i ennill gwobr Y Fenter Wledig Orau yng Ngwobrau 2024 y Countryside Alliance, ac meddai Sara: "Golygodd y grant fod modd i ni symud yn llawer cynt na'r disgwyl i'r caffi newydd, ynghyd â phrynu offer newydd ar gyfer y gegin.

"Yn awr gallwn gynnig bwydlen lawer mwy amrywiol, cynnal digwyddiadau fin nos a darparu cynnyrch ffres."



Elusen yn mynd o nerth i nerth

Mae elusen a ffurfiwyd i drawsnewid bywydau a meithrin annibyniaeth plant ac oedolion gydag anawsterau corfforol, anghenion dysgu ychwanegol a chyflyrau iechyd meddwl wedi uwchraddio ei chyfleusterau er mwyn gwella'r gwasanaethau a gynigir ganddi.

Bu Calon RDA (Riding for the Disabled Association) yn cynnig profiadau marchogaeth a neidio ceffylau ers cael ei greu gan grŵp o wirfoddolwyr brwd yn Chwefror 2018.

Cawsant grant gan Gyngor Sir Ddinbych drwy Gronfa Allweddol Gallu Cymuned y sir a ariannwyd drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF) a defnyddiodd yr elusen y cymorth i brynu sied ar gyfer storio offer neidio newydd er lles defnyddwyr y gwasanaeth.

Hefyd, prynwyd beic cwad i dynnu og well ar gyfer llyfnu a lefelu eu llwybrau marchogaeth.

Bydd y cyfleusterau newydd o gymorth allweddol i gyfoethogi bywyd defnyddwyr y gwasanaeth, yn cynnwys Claire Jolley, sydd ag anawsterau gweld dwys, a'i dau fab William a Jacob.

Meddai Claire: *"Mae'n lle pwysig iawn i'n teulu oherwydd yma gallwn fod yn ni ein hunain."*



Gwylwch: Chwa o awyr iach

Mae prosiect Allgymorth Cymunedol Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio yn Llandrillo a Chorwen i gyfoethogi atyniad y manau hyn. Gyda chefnogaeth Grŵp Cerddwyr Llandrillo a Sgowtiaid Corwen, trefnwyd teithiau tywys, cafodd llwybrau eu gwella a rhoddwyd hyfforddiant crwydro'n ddiogel i breswylwyr hen ac ifanc.



I wylw'r fideo, sganiwch y cod QR neu ewch i: tinyurl.com/4n6m6y22

sirdinbych.gov.uk

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



Cyngor Sir y Fflint

Cefnogwyd 26 cynllun gyda £12,448,147 o gyllid wedi'i ymrwmo

Llanc ifanc o Sir y Fflint yn troi oddi wrth dorcyfraith at adeiladu

Mae llanc ifanc o Sir y Fflint a gafodd ei ecsploetio gan droseddwr yn newid ei fywyd er gwell, diolch i raglen allweddol yn y sir.

Cafodd yr hogyn 17 oed ei fanipiweiddio a'i orfodi i dorri'r gyfraith trwy gydol ei flynyddoedd ffurfiannol ac arweiniodd hynny at gael ei arestio dro ar ôl tro.

Ond, ar ôl cael ei gyfeirio at wasanaeth atal camfanteisio troseddol Gweithredu Dros Blant, cafodd swydd, cofrestrodd mewn coleg ac mae'n mwynhau perthynas iachach ag ef ei hun a'i deulu.

Dyma enghraifft o lwyddiant Prosiect 11, un o gynlluniau Gweithredu Dros Blant sy'n ceisio rhwystro pobl ifanc dros 11 oed rhag cael eu hecsploetio a'u hudo i droseddu. Ariannwyd y cynllun gan Gyngor Sir y Fflint drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU(UKSPF).

Ni ellir enwi'r llanc ifanc am resymau diogelwch ond mae'n llawn canmoliaeth i Prosiect 11 a gwaith Gweithredu Dros Blant. Meddai: "Rwyf wedi cael fy mywyd cyfan yn ôl mewn trefn. Oni bai am yr help a gefais, byddwn yn dal i gerdded y lwybr anghywir."



Busnes o Sir y Fflint yn lansio'r cynnyrch cyntaf o'i fath yn y byd


Mae un o ganolfannau ymchwil a datblygu disgleiriaf Cymru wedi helpu cwmni newydd o Sir y Fflint i gynhyrchu rhagor o'u hoffer arbenigol - offer a fydd yn helpu i arbed bywyd cŵn milwrol.

Bu Advanced Manufacturing Research Centre (AMRC) Cymru, rhan o Brifysgol Sheffield, yn gweithio'n agos gyda Dylunio Solutions i ddatblygu system i arbed cŵn rhag anadlu mygdarth gwenwynig wrth wneud gwaith milwrol.

Mae'r cynnyrch a ddatblygwyd yn cael ei brofi ar hyn o bryd yn yr Unol Daleithiau - carreg filltir allweddol a gyrhaeddwyd yn gynt na'r disgwyl diolch i gynllun Cyflymu Datgarboneiddio a Chynhyrchiant Drwy Dechnoleg a Sgiliau (ADAPTS) AMRC Cymru.

Meddai Graham Wilson, cyfarwyddwr Dylunio Solutions sy'n arbenigo mewn dylunio cynhyrchion, peirianeg electronig a dylunio ar gyfer cynhyrchu: "Mae AMRC Cymru wedi bod yn wych yn teilwra eu cefnogaeth i gwrdd â'n heriau fel busnes bach."

Mae'r cynllun ADAPTS, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint, wedi cefnogi 32 o wahanol sefydliadau yn y sir ar draws amrywiaeth eang o ddiwydiannau.



Canmol gwelliannau a fydd o gymorth i atal troseddu yn Ffordd y Doc

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru wedi arwain y ganmoliaeth i gynllun adnewyddu trawiadol a ddyluniwyd i atal troseddu rheolaidd mewn ardal o Sir y Fflint.

Croesawyd y cynllun yn Ffordd y Doc, Cei Connah, gan Andy Dunbobbin, sydd hefyd yn gynghorydd tref dros ward Golftyn yn y dref.

Gyda chymorth £290,000 gan Gyngor Sir y Fflint drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), bu timau cynllunio, amgylchedd ac economi Cyngor Sir y Fflint yn gweithio'n galed i wneud yr ardal hon yn lle mwy deniadol.

Gwnaed y gwelliannau fel rhan o raglen Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Buddsoddi mewn Canol Trefi - rhaglen a dderbyniodd gyfanswm o £1.5 miliwn i ddatblygu canol trefi ar draws y sir.

Gosodwyd camerâu cylch cyfyng, goleuadau stryd, 100 bolard a phedair ysgol ddringo bwrpasol i wneud y lle'n fwy diogel ar gyfer defnyddwyr - o bysgotwyr i feicwyr, i'r rhai sy'n mynd â'u cŵn am dro.

Meddai Andy: "Mae'r dociau yn rhan hanesyddol ac allweddol o dreftadaeth Cei Connah. Dyma lle dechreuodd y dref a'r man lle cafodd ei henw."



Gwylwch: Cysylltu'r Arfordir a Chefn Gwlad

O waith parhaus yn cryfhau poblogaeth llyffant y twyni (natterjack toad), a oedd wedi diflannu o Gymru ar un adeg, i adfer hen gwt weindio, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, mae prosiect Cyngor Sir y Fflint yn trawsnewid arfordir y rhan hon o Ogledd Cymru.



I wyllo'r fideo, sganiwch y cod QR neu ewch i: tinyurl.com/mu96v8cj

siryfflint.gov.uk



Cyngor Gwynedd

Cefnogi 40 cynllun gyda chymorth ariannol o £23,954,641

Rhoi egni newydd i fusnes teuluol

Mae cwmni teuluol o ardal Blaenau Ffestiniog wedi cael ei helpu ar y daith tuag at sero net gan hyfforddiant yn cael ei ariannu gan y llywodraeth.

Cafodd tîm bychan Robinson Electrical eu huwchgilio gan raglen Hyfforddiant Sero Net Gwynedd, cynllun a gefnogwyd gan Gyngor Gwynedd drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF). Cafodd cyfanswm o 84 o fusnesau help ac enillodd 183 o unigolion gymhwyster mewn technolegau ynni adnewyddadwy ac ôl-osod (*retrofit*).

Darparwyd yr hyfforddiant arbenigol gan y Ganolfan Isadeiledd Sgiliau a Thechnoleg (CIST) trwy Busnes@LlandrilloMenai mewn hwb datgarboneiddio newydd Tŷ Gwyrddfai, ym Mhenygroes. Roedd ar gael i unigolion a busnesau bach a chanolig sy'n gweithio yn y sector adeiladu.

Bellach mae tîm Robinson Electrical yn medru gosod pwyntiau gwefru EV – gwasanaeth fydd yn cael ei ymestyn i'w cwsmeriaid- ac maent hefyd wedi dysgu sgiliau a chael cymwysterau angenrheidiol i osod paneli solar a chynnal a chadw batris storio ynni.

Meddai perchennog y cwmni, Kate Robinson: *"Roeddem yn awyddus i wella ein sgiliau i ddatblygu'r busnes, a phan ddaeth y cyfle i gael y cyrsiau wedi ei ariannu'n llawn, roeddem ni wrth ein boddau. Roedd y ffaith ei fod hefyd ar gael yn lleol yn ei wneud hyd yn oed yn well, gan ei fod yn ein caniatáu i gael mynediad at hyfforddiant gwerthfawr heb orfod teithio yn bell."*



Cefnogaeth yn atal canolfan gymunedol rhag cau

Mae canolfan gymunedol sy'n cynnig gweithgareddau a lle diogel i gannoedd o bobl yn un o wardiau mwyaf difreintiedig Gwynedd wedi cael ei arbed rhag cau.

Roedd Canolfan Gymunedol Noddfa yng Nghaernarfon, sy'n gwasanaethu stad Ysgubor Goch, yn wynebu dyfodol ansicr wrth i'w costau rhedeg gynyddu tu hwnt i reolaeth.

Ond diolch i Gronfa Cefnogi Adfywio Cymunedol gan Gyngor Gwynedd, a ariannwyd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), mae dyfodol y ganolfan yn fwy cynaliadwy yn economaidd ac amgylcheddol.

Gosodwyd paneli solar, ynghyd â batris storio ynni, uwchraddiwyd y system wresogi a gwella'r goleuadau gyda'r nod o leihau allyriadau carbon.

Meddai Dewi Jones, y cynghorydd sy'n cynrychioli ward Peblig yng Nghaernarfon: *"Roedd hi'n argyfwng ar y ganolfan ac mae derbyn y grant hwn wedi lleihau ein costau ynni yn aruthrol ac wedi arbed Noddfa rhag gorfod cau."*

"Mae'n adnodd gymunedol allweddol a gallwn rŵan gynllunio ar gyfer dyfodol gwell i'r gymuned hon."



Dyfodol llewyrchus i Barc Menter

Mae dyfodol llewyrchus i fusnesau Parc Menter wedi buddsoddiad gan fenter gymdeithasol brofiadol i'w safle diweddaraf o unedau busnesau.

Sefydlwyd Antur Nantlle Cyf yn 1991 i weithio er lles Dyffryn Nantlle. Mae'n darparu cartref i fwy na 50 o fusnesau annibynnol, a hwythau yn eu tro yn cefnogi mwy na 130 o swyddi lleol.

Derbyniodd y cwmni cymunedol nid-er-elw y cymorth ar gyfer ei safle diweddaraf o unedau busnes ar Stad Ddiwydiannol Penygroes – Parc Menter Dyffryn Nantlle.

Gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd ac arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), mae Antur Nantlle Cyf wedi ail doi ac insiwleiddio 16 o unedau busnes er budd 12 o gwmnïau lleol.

Ychwanegwyd paneli solar hefyd i gynhyrchu ynni glân mwy cost effeithiol, gan leihau costau rhedeg ar adeg heriol i fusnesau bach.

Meddai Robat Jones o Antur Nantlle Cyf: *"Bydd y cyfuniad o fesurau insiwleiddio a phaneli solar yn arbed tunelli o allyriadau CO2 bob blwyddyn, tra bydd arbedion ariannol sylweddol i gostau rhedeg yr unedau busnes."*



Gwylwch: Dathlu llwyddiannau

Mae Cyngor Gwynedd, gyda'i bartneriaid, wedi gweithio gyda chymunedau, busnesau a sefydliadau ym mhob rhan o'r sir i wneud y gorau o'r £24.4 a dderbyniwyd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF).

Ymhlith y rhai a gefnogwyd y mae Academi Adra, MST Cars, Beics Antur, Caru Eryri, Garej a Swyddfa'r Post Aberdyfi a Chlwb Pêl-droed Pwllheli.



I wylw'r fideo, sganiwch y cod QR neu ewch i: tinyurl.com/5ffhybb5

[gwynedd.llyw.cymru](https://www.gwynedd.llyw.cymru)



Cyngor Sir Ynys Môn

Cefnogwyd 30 cynllun gyda £16,081,936 o gyllid wedi'i ymrwmo

Amgen Awyr Agored (Outdoor Alternative) yn symud tuag at sero net

Mae menter dwristiaeth gynaliadwy yn symud yn gynt tuag at sero net diolch i gefnogaeth yr Academi Ddigidol Werdd.

Yn cael ei ariannu gan Gyngor Sir Ynys Môn drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF), a'i redeg gan Busnes@LlandrilloMenai, mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth a mentora i fusnesau bach a chanolig i'w galluogi i ddatblygu strategaethau a pholisïau lleihau carbon.

Manteisiwyd ar y gefnogaeth hon gan Amgen Awyr Agored, a fu'n cynnig llety a chyfleusterau gweryslla i unigolion egnïol yn Rhoscolyn, Ynys Môn ers 1985.

Gyda chymorth yr Academi Ddigidol Werdd, symudodd y cwmni teuluol tuag at sero net drwy osod tanciau dŵr poeth clyfar a phaneli solar ffotofoltäig (PV) i gynhyrchu trydan a rhagor o ddŵr poeth.

Mae cynlluniau hefyd i newid bwyleri nwy hylif petroliwm (LPG), sy'n cynhyrchu llawer o garbon, am bympiau mwy effeithlon sy'n cynhyrchu gwres o'r aer.

Meddai Chris Wright, un o berchnogion y busnes: "Gosododd yr Academi Ddigidol Werdd gyfeiriad clir ar gyfer ein rhaglen ddatgarboneiddio. Fe'n galluogodd i fuddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf i'n helpu tuag at y nod o gyrraedd sero net."



Lluosi Môn yn gwella sgiliau rhifedd

Lansiwyd cynllun ar draws Ynys Môn i helpu oedolion i wella eu sgiliau rhifedd.

Yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor Sir Ynys Môn, mae corff cefnogi cyflogaeth Môn CF, ynghyd â Chyngor ar Bopeth Ynys Môn, wedi bod yn gweithredu prosiect o'r enw Lluosi Môn a luniwyd yn arbennig i gefnogi oedolion 19 oed a throsodd.

Yn cael ei ariannu gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn drwy Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF), mae'r cynllun yn defnyddio cyrsiau cymunedol sy'n canolbwyntio ar ddysgu'r sgiliau rhifedd angenrheidiol i bobl fedru rheoli eu harian yn effeithiol.

Arweiniodd taith o amgylch Marina Caergybi at bartneriaeth gyda Môn CF a oedd yn cynnig cyfnodau o brofiad gwaith cyflogedig. Yn dilyn cyhoedduswydd a roddwyd i'r cynllun penderfynodd Cai ymgeisio am un o'r cyfleoedd hynny.

Wedi iddo greu argraff ffafriol iawn gyda'i agwedd a'i frwdfrydedd, penodwyd Cai i swydd labrwr dros dro gan dreulio un diwrnod yr wythnos yn gwella ei sgiliau rhifedd fel rhan o raglen Sgiliau Hanfodol Cymru.

Enillodd gymhwyster lefel un mewn rhifedd ac mae'n gobeithio cael swydd barhaol gyda Marina Caergybi.

Mae'r cynllun wedi helpu mwy na 25 o bobl i gael gwaith cyflogedig sefydlog ar ôl iddynt ennill cymhwyster mewn mathemateg.



Coed Lleol yn goresgyn rhwystrau cyflogaeth

Wrth iddynt ymwneud â gweithgareddau byd natur, llwyddodd y prosiect Coed Lleol i wella sgiliau a llesiant pobl sy'n ei chael yn anodd canfod gwaith cyflogedig.

Yn cael ei ariannu gan Gyngor Sir Ynys Môn o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF), roedd y prosiect yn helpu siawns pobl o gael swyddi'n gysylltiedig â byd natur drwy wella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o goedlannau ac amgylchedd Ynys Môn.

Roedd y cynllun yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli ac yn annog pobl i ofalu am eu hiechyd a newid eu ffordd o fyw drwy weithgareddau corfforol, gwaith grŵp a chysylltu â byd natur.

Meddai John Llewelyn Pritchard o Coed Lleol: "Diolch i Gyngor Sir Ynys Môn a UKSPF, rydym wedi llwyddo i barhau i wneud ein gwaith pwysig."

"Rydym yn trefnu gweithgareddau ar gyfer rhai sydd fel arfer wedi eu heithrio'n gymdeithasol a rhai gydag anghenion dysgu. Down â phobl at ei gilydd i gadw'n heini, dysgu sgiliau newydd a chymdeithasu. Mae'n achubiaeth i lawer."

"Roedd y gefnogaeth ariannol a gawsom yn bwysig ac fe'n helpodd i barhau i wneud ein gwaith da."



Gwylwch: Effaith trawiadol ar Ynys Môn

Trwy brosiectau fel cefnogi twf busnesau lleol, cynnig interniaethau i raddedigion, datblygu llwybr pren newydd, plannu 5,000 o goed, helpu oedolion gydag anawsterau dysgu a chynorthwyo mwy na 1,000 o bobl i ennill cymwysterau, mae Cyngor Sir Ynys Môn trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF) wedi cael effaith gwirioneddol ar Ynys.



I wylwio'r fideo, sganiwch y cod QR neu ewch i: tinyurl.com/2jt6rcnr



CYNGOR SIR
YNYS MON
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

ynysmon.llyw.cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cefnogwyd 25 cynllun gyda £22,684,206 o gyllid wedi'i ymrwymo

Codi gobeithion pobl ifanc Wrecsam am addysg a gwaith

Mae cannoedd o bobl ifanc Wrecsam, a oedd yn bryderus ynghylch eu dyfodol ac yn wynebu heriau addysg a gwaith, yn teimlo'n well am y misoedd a'r blyneddoddi sydd o'u blaen, diolch i raglen allweddol.

Mae WeMindTheGap, elusen symudedd cymdeithasol, wedi defnyddio arian Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF) i gefnogi 582 o bobl ifanc 18 i 21 oed, gyda 62 y cant ohonynt yn symud ymlaen i'w cam nesaf, yn cynnwys addysg a gwirfoddoli.

Am gyfnod o chwe mis, bu rhaglen paratoi at fyd gwaith, WeGrow, yn cefnogi 10 o'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd oherwydd eu bywydau cymhleth.

Maent wedi llwyddo i ennill 46 cymhwyster, manteisio ar 136 o sesiynau hyfforddiant bywyd a chael 27 o gyfnodau profiad gwaith. Mae chwech wedi symud ymlaen i swyddi llawn amser a dau arall yn dal i gael eu cefnogi wrth iddynt baratoi ar gyfer byd gwaith.

Lansiodd WeMindTheGap raglen beilot o'r enw WeBridge, a alluogodd saith o bobl ifanc i ennill swyddi, tri i fynychu hyfforddiant achrededig a thri i wneud gwaith gwirfoddol.

Hefyd, cyflwynodd yr elusen systemau a phyrth mynediad arloesol. Bydd y rhain yn cael effaith gadarnhaol tu hwnt i gyfnod y grant UKSPF ac mae'n bosibl y bydd eu manteision yn ymestyn ar draws Gogledd Cymru a'r Deyrnas Unedig.



Disgwyl creu mwy nag 80 o swyddi, diolch i gronfa allweddol

Canmolwyd llwyddiant Cronfa Allweddol 'Darpariaeth Cymorth Busnes Gwell' y disgwylir y bydd yn cyfrannu mwy na £1.2m i'r economi, gyda'r adenillon ar fuddsoddiad yn £1.56 am bob £1 o grant.

Yn cael ei harwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, cysylltodd y rhaglen â 40 o fusnesau gan roi cymorth o hyd at £50,000, ynghyd â threfnu gweithdai, ymweliadau safle a phrosiectau. Crëwyd yr hyn sy'n cyfateb i 80 swydd llawn amser a diogelwyd llawer mwy.

Roedd y grant a roddwyd i gwmni Tŷ Eco o gymorth i'w alluogi i dyfu'n gynt. Mae'r cwmni hwn yn dylunio, cynhyrchu a chyflenwi citiau tai ffrâm bren panelog. Crëwyd pedair swydd newydd yn barod a disgwylir creu tair swydd arall o fewn y 12 mis nesaf.

Meddai llefarydd ar ran y busnes: "Mae wedi gwneud y busnes yn fwy amgylcheddol gynaliadwy gan inni brynu offer sy'n rhedeg ar drydan yn hytrach na chael ei bweru gan ddiesel."

"Gwnaeth yr offer newydd ni'n fwy effeithlon, ac felly'n fwy cynhyrchiol."



Cyfleusterau newydd rhagorol i Glwb Tennis Wrecsam

Mae chwaraewyr Clwb Tennis Wrecsam wrth eu bodd gyda'u cyfleusterau newydd wedi ailddatblygiad £2.5m y talwyd amdano'n bennaf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF).

Mae'r gwelliannau allweddol yn cynnwys naw chwrt awyr agored, tri chwrt padel dan do (y cyntaf yn y rhanbarth), goleuadau newydd a chyfleusterau eraill gwell megis ardaloedd ffitrwydd, gwella sgiliau a defnydd cymunedol newydd.

Mae cynllun busnes newydd y clwb yn rhagweld twf o £1.25m mewn trosiant ac elw gweithredol o £800k erbyn 2028. Trosiant o ychydig dros £300k a cholled weithredol fach yw'r sefyllfa bresennol.

Rhan ganolog o'r prosiect yw cynaliadwyedd amgylcheddol - yn cynnwys adnewyddu ac ailosod paneli solar, cyflwyno peiriannau egnïo EV, cyflwyno goleuadau LED pan fyddir yn newid bylbiau, ac annog teithio actif gan aelodau ac ymwelwyr â'r clwb.



Gwylwch: Trawsnewid canolfan wyddoniaeth

Gwnaed newidiadau amgylcheddol allweddol gan Ganolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore!, yn cynnwys lleihau 22 tunnelli ar eu hallyriadau CO2, buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy a pharatoi'r ffordd ar gyfer atyniadau newydd posibl yn cynnwys planetariwm, arddangosfa rhyfeddu'r meddwl a lle cynadledda.



I wylïo'r fideo, sganiwch y cod QR neu ewch i: tinyurl.com/4zsp35z7

wrexham.gov.uk



Prosiectau Aml Awdurdod

Cefnogaeth allweddol i ddysgwyr yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn

Cefnogaeth allweddol i ddysgwyr yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn

Canmolwyd llwyddiant y rhaglen Camau Cefnogol wrth leihau'r posibilrwydd fod dysgwyr yn disgyn i'r categori 'NEET' – sef rhai heb fod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant – yn siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.

Caiff y cynllun ei redeg gan Grŵp Llandrillo Menai gyda chefnogaeth y tair Sir drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF). Mae'n helpu myfyrwyr 16 i 25 oed i gael mynediad at fentora pwrpasol i gefnogi eu haddysg.

Mae staff y coleg o'r farn y byddai bywyd yn fwy heriol i fyfyrwyr pe na bai'r cymorth hwn ar gael.

Meddai Phil Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr a Marchnata Grŵp Llandrillo Menai: "Roedd pob myfyriwr a gymrodd ran yn y rhaglen yr un mor debygol o lwyddo â'r rhai nad oedd angen cefnogaeth ychwanegol."

"Mae ein mentoriaid wedi ymateb mewn ffordd allweddol i'r heriau iechyd meddwl cynyddol a wynebwr gan ddysgwyr, tra ar yr un pryd yn cefnogi gwelliannau mewn presenoldeb, cyrhaeddiad a chymwysterau."

Dyma rai o sylwadau'r myfyrwyr:

"Wnes i erioed gredu ynof fi fy hun. 'Dach chi wedi gwneud imi edrych ymlaen at y dyfodol unwaith eto."

"Roeddwn wedi colli pob gobaith – jest bodoli heb edrych ymlaen at ddim byd. Rŵan, mae gen i ddyfodol, 'dwi'n gwneud cynlluniau cadarnhaol ac yn gwenu unwaith eto. Diolch yn fawr."



"Twf cynhwysol ar draws ein rhanbarth" – is-ganghellor prifysgol

Mae busnesau ar draws siroedd Dinbych, Fflint a Wrecsam wedi uwchsgilio eu gweithlu a chael mynediad at gefnogaeth allweddol i weithredu prosiectau arloesol, diolch i raglenni ym Mhrifysgol Wrecsam a gefnogir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig (UKSPF).

Cynigiodd y Brifysgol dalebau sgiliau ar gyfer gweithdai a chyrtsiau byr, talebau trosglwyddo gwybodaeth i fanteisio ar arbenigedd a mewnwelediad staff academiaidd, a mini-bartneriaethau trosglwyddo gwybodaeth i gyflogi graddedigion am hyd at chwe mis a chael mynediad at arbenigedd academiaidd.

Un o'r 116 cwmni a sefydliad a fanteisiodd ar y cynllun oedd The Rainbow Foundation.

Mae'r elusen hon yn gweithio i wella iechyd a lles cymunedau ac yn helpu pobl i newid eu harferion byw mewn ffordd barhaol er mwyn gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol.

Mewn perthynas â llwyddiant cyffredinol y gwahanol raglenni a ariannwyd gan y tri Sir drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU dywedodd Yr Athro Joe Yates, Is-Ganghellor Prifysgol Wrecsam: "Maent yn enghraifft ragorol o'r ffordd y gall partneriaethau pwerau arwain at dwf cynhwysol ar draws ein rhanbarth."



Ymgyrch sbwriel yn gwella cymunedau a chynaliadwyedd ar draws Gogledd Cymru

Mae gweithgaredd Cadw Cymru'n Daclus, gyda chefnogaeth Siroedd Conwy, Fflint, Ynys Môn a Wrecsam drwy Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF), wedi gwneud lles trawsnewidiol ar draws Gogledd Cymru gan feithrin cymunedau cryfach, glanach a mwy cydlynol.

Yn rhedeg ar draws y pedair Sir, nod y rhaglen oedd ymateb i heriau amgylcheddol a chymdeithasol drwy gynnal ymgyrchoedd megis hybiau sbwriel, pencampwyr sbwriel, ardaloedd di-sbwriel, glanhau traethau a glanhau cymunedol.

Mae hyn oll wedi galluogi cymunedau lleol i berchnogi eu hamgylchedd, gwella'r isadeiledd ac annog byw mewn ffyrdd mwy cynaliadwy.

Mewn ymarferiad gwerthuso, canfuwyd fod 90 y cant o'r bobl a holwyd ynghylch effeithiolrwydd yr hybiau sbwriel yn teimlo'n gadarnhaol iawn neu'n bur gadarnhaol am yr effaith a gawsant ar eu cymuned leol. Teimlai 89 y cant fod ardaloedd di-sbwriel wedi lleihau'r arfer o daflu sbwriel ar dir neu yn ardal eu hysgol neu fusnes.

Oherwydd sefydlu grwpiau a phartneriaethau cymunedol newydd bydd gwaith da'r ymgyrch bresennol yn parhau fel etifeddiaeth i'r dyfodol ar draws Gogledd Cymru.



Gwylwch: Agor drysau

Gwnaeth Cymro Vintage ddefnydd ardderchog o Hwb Menter – cynllun sy'n gweithredu yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Manteisiodd Dylan Jones ar y prosiect Miwtini, sef rhaglen bwrpasol a grëwyd i helpu unigolion i ddechrau busnes a chanfod grantiau. Fe'i rhedir gan Menter Môn gyda chefnogaeth Cyngorau Gwynedd ac Ynys Môn o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF).



I wyllo'r fideo, sganiwch y cod QR neu ewch i: tinyurl.com/y4yf443b

Ystadegau a data

Llwyddiannau prosiectau a buddion rhanbarthol mewn rhif



38,765 o Gyfleoedd Gwirfoddoli



456 Tunnell o ostyngiad cyfatebol mewn CO2



10,263 o Ddigwyddiadau a Gweithgareddau



7,634 o unigolion wedi ennill cymhwyster neu a gefnogwyd i wneud hynny



543 o Gyfleusterau Newydd neu wedi eu Gwella



5,248 o unigolion wedi'i cefnogi i gynyddu eu siawns o gael swydd



686 o Swyddi Newydd



975 Swydd wedi eu diogelu

CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN

GOGLEDD CYMRU

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Funded by
UK Government



Local decision making; regional impact
North Wales project successes

SHARED PROSPERITY FUND
NORTH WALES

| Content

03	Welcome	12	Cyngor Gwynedd
04	Multi-local Authority Projects	14	Isle of Anglesey County Council
06	Conwy County Borough Council	16	Wrexham County Borough Council
08	Denbighshire County Council	18	Multi-local Authority Projects
10	Flintshire County Council	20	Stats and data

sharedprosperitynorth.wales

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Funded by
UK Government

Shared Prosperity Fund: North Wales is funded by the UK Government through the UK Shared Prosperity Fund.
Cyngor Gwynedd is the lead body of the Shared Prosperity Fund: North Wales on behalf of the region's local authorities.

| Welcome

Since 2022, local authorities in North Wales have worked collectively, and with partners in their areas, to make the most of the opportunity provided by the UK Government's Shared Prosperity Fund (SPF).

A considered, innovative approach was adopted in North Wales, making the most of the flexibility afforded by the SPF.

